

CELF A DYLUNIO, Y CYFRYNGAU, FFOTOGRAFFIAETH

O'r palet paent i du ôl i'r lens, mae'r maes hwn yn un o'r rhai mwyaf cystadleuol ac yn fyrlymus a chyffrous! Delfrydol ar gyfer y rheiny sy'n greadigol ac artistig.

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaedd y gallech chi eu dilyn:

Dylunio graffeg

Daw dylunwyr graffeg â syniadau'n fyw gyda gwybodaeth dechnegol a dychymyg. Fel rheol yn dilyn briff, byddwch yn cyfathrebu cysyniadau'n weledol ac yn ysbrydoli cynulleidfa gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadur neu gyda llaw, yn creu hysbysebion, cylchgronnau, pamffledi etc.

Cyfyngau rhyngweithiol

Rydym yn rhyngweithio gyda chyfyngau bob dydd drwy apiau ar ein ffonau clyfar, technoleg sgrin gyffwrdd etc. Creu cynnyrch digidol sy'n dibynnu ar rhyngweithiad â chwmeriaid yn ffurfiau negeseuon fflach, negeseuon testun, fideo a sain. Mae'r maes hwn yn berffaith i chi os oes gennych ddealltwriaeth o'r technolegau diweddaraf.

Ffasiwn

A ydych chi'n drendi? A oes gennych lygaid da am liw? A ydych chi'n gwybod beth sy'n

edrych yn dda? Trowch eich dyluniadau yn ddillad drwy weithio gyda thorwyr patrymau, adwerthwyr a phrynwyr. Gallech chi weld eich dyluniadau ar y rhedfa, mewn bwtîcs neu ar y stryd fawr.

Animeiddio

Nid cartŵnau yw popeth; cewch gynnwys wedi'i animeiddio ar y teledu, gwefannau a gemau cyfrifiaduron. Caiff darluniau llonydd eu trin i ymddangos fel lluniau sy'n symud drwy dechnegau 2D â llaw, graffeg 3D neu stop-symudiad, gan ddod â chreadigaethau'n fyw.

Cyhoeddi

Wrth eich bodd â'r gair ysgrifenedig? Mae cyhoeddi yn gwneud llenyddiaeth, cerddoriaeth a gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd yn rhwydd. Dewch yn newyddiadurwr, awdur neu olygydd, yn cynhyrchu'r deunydd yr ydym ni wrth ein bodd yn ei ddarllen.

Dolenni Defnyddiol

www.ccskills.org.uk Creative and Cultural Skills, elusen annibynnol
www.careerswales.com
 Gwefan Gyrfa Cymru

£2.2 BILIWN
TROSIANT BLYNYDDOL AR GYFER Y DIWYDIANNAU CREADIGOL YNG NGHYMRU

(ffynhonnell Creative Wales)

CYFANSWM Y SWYDDI YN Y DIWYDIANT HWN

56,000 CYMRU
137,250 DU



(ffynhonnell Creative Industries Council)

Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Lefel	BG	C	DC	T
Celf a Dylunio	2		✓	✓	✓
Celf a Dylunio	3	✓	✓	✓	✓
Celf a Dylunio (Celf a Dylunio, Ffotograffiaeth, Ffasiwn a Thecstilau)	3		✓		
E-chwaraeon (Cynhyrchu a Thechnoleg Cyfyngau Creadigol)	3	✓			
Astudiaethau Sylfaenol (Celf a Dylunio)	3			✓	
Dylunio Gemau	3		✓		
Y Cyfyngau	2		✓	✓	✓
Y Cyfyngau	3	✓	✓	✓	✓
Sgiliau ar gyfer Gwaith yn y Diwydiannau Creadigol a Dylunio	2	✓			
Astudiaethau Galwedigaethol - Celf a'r Cyfyngau Creadigol	1		✓	✓	✓

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | Helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / T - Parth Dysgu Torfaen

